# TRANSITIONS POLICY

At Wibli Wobli Nursery we recognise that young children will experience many transitions in their early years; some of these planned and some unplanned. We are sensitive to the impact of such changes to children and this policy sets out the ways in which we support children going through these transitions.

Some examples of transitions that young children and babies may experience are:

- Starting nursery
- Moving between different rooms within the nursery
- Starting school or moving nurseries
- Family breakdowns
- New siblings
- Moving home
- Death of a family member or close friend
- Death of a family pet.

Staff are trained to observe their key children and as to be sensitive to any changes in their behaviour and personality. We respectfully ask that parents inform us of any changes in the home environment that may impact on their child so staff can be aware of the reasons behind any potential changes in the child's behaviour.

**Starting nursery**
We recognise that starting nursery may be difficult for some children and their families. We have a settling in policy to support the child and their family.

**Moving rooms procedure**
When a child is ready to move to a different room in the nursery, we follow the process set out below and work with the parents to ensure this is a seamless process in which the child is fully supported at all stages. This may include a handover meeting between the existing key worker, new key worker and parents.

- The child will spend short sessions in their new room prior to the permanent move to enable them to feel comfortable in their new surroundings
- The child's key worker will go with the child on these initial visits to enable a familiar person to be present at all times
- Wherever possible groups of friends will be moved together to enable these friendships to be kept intact and support the children with the peers they know
- Parents will be kept informed of all visits and the outcomes of these sessions e.g. through photographs, discussions or diary entries
- Only when the child has settled in through these taster sessions will the permanent room move take place. If a child requires more support this will be discussed between the key worker, parent, manager and room leader of the new room to agree how and when this will happen. This may include moving their key worker with them on a temporary basis.

**Starting school or moving childcare providers**

Starting school is an important transition and some children may feel anxious or distressed. We will do all we can to facilitate a smooth move and minimise any potential stresses. We have a variety of methods that support this:

- We will provide a variety of resources that relate to the school, e.g. uniform to dress up in, a role play area set up as a school classroom, photographs of all the schools the children may attend. This will help the children to become familiar with this new concept and will aid the transition
- We will invite school representatives into the nursery to introduce them to the children
- Where possible we use other ways to support the transition to school, e.g. inviting previous children from the nursery who have moved on to school to come back and talk to the children about their school experiences
- Where possible we plan visits to the school with the key worker. Each key worker will talk about the school with their key children who are due to move to school and discuss what they think may be different and what may be the same. They will talk through any concerns the child may have and initiate activities or group discussions relating to any issues to help children overcome these
- We produce a comprehensive report on every child starting school to enable teachers to have a good understanding of every child received. This will include their interests, strengths and level of understanding and development in key areas. This will support continuity of care and early learning.

**Other early years providers**

Where children are attending other early years settings or are cared for by a childminder we will work with them to share relevant information about children's development. Where a child is brought to nursery or collected from nursery by a childminder we will ensure that key information is being provided to the child's parent by providing the information directly to the parent via email or telephone.

**Family breakdowns**

We recognise that when parents separate it can be a difficult situation for all concerned. We have a separated families' policy that, shows how the nursery will act in the best interest of the child.

**Moving home and new siblings**

We recognise that both these events may have an impact on a child. Normally, parents will have advance notice of these changes and we ask parents to let us know about these events so we can support the child to be prepared. The key worker will spend time talking to the child and providing activities that may help the child to act out any worries they have, e.g. through role play, stories and discussions.

**Bereavement**

We recognise that this may be a very difficult time for children and their families and have a separate policy on bereavement which we follow to help us offer support to all concerned should this be required. If parents feel that their child requires additional support because of any changes in their life, we ask that you speak to the nursery manager and the key worker to enable this support to be put into place.

| This policy was adopted on | Signed on behalf of the nursery | Date for review |
| --- | --- | --- |
| *1/4/2025* | *N. Baker* | *April 2027* |

# POLISIO PONTIO

Ym Meithrinfa Wibli Wobli rydym yn cydnabod y bydd plant ifanc yn profi llawer o drawsnewidiadau yn eu blynyddoedd cynnar; mae rhai o'r rhain wedi'u cynllunio a rhai heb eu cynllunio. Rydym yn sensitif i effaith newidiadau o'r fath i blant ac mae'r polisi hwn yn nodi'r ffyrdd yr ydym yn cefnogi plant sy'n mynd drwy'r trawsnewidiadau hyn.

Rhai enghreifftiau o drawsnewidiadau y gall plant ifanc a babanod eu profi yw:

- Dechrau mynychu meithrinfa
- Symud rhwng gwahanol ystafelloedd yn y feithrinfa
- Dechrau dosbarth meithrin ysgol neu symud
- Perthnasau yn torri lawr o fewn teulu
- Brodyr a chwiorydd newydd
- Symud cartref
- Marwolaeth aelod o'r teulu neu ffrind agos
- Marwolaeth anifail anwes teuluol.

Mae staff wedi'u hyfforddi i arsylwi eu plant allweddol ac i fod yn sensitif i unrhyw newidiadau yn eu hymddygiad a'u personoliaeth. Gofynnwn yn barchus i rieni roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn amgylchedd y cartref a allai effeithio ar eu plentyn, felly gall staff fod yn ymwybodol o'r rhesymau y tu ôl i unrhyw newidiadau posibl yn ymddygiad y plentyn.

**Cychwyn yn y feithrinfa**

Rydym yn cydnabod y gall cychwyn yn y feithrinfa fod yn anodd i rai plant a'u teuluoedd. Mae gennym bolisi ymgartrefu i gefnogi'r plentyn a'i deulu.

**Gweithdrefn symud ystafelloedd**

Pan fydd plentyn yn barod i symud i ystafell wahanol yn y feithrinfa, byddwn yn dilyn y broses a nodir isod ac yn gweithio gyda'r rhieni i sicrhau bod hon yn broses ddi-dor lle caiff y plentyn gefnogaeth lawn ar bob cam. Gall hyn gynnwys cyfarfod trosglwyddo rhwng y gweithiwr allweddol presennol, y gweithiwr allweddol newydd a'r rhieni.

- Bydd y plentyn yn treulio sesiynau byr yn ei ystafell newydd cyn y symud parhaol er mwyn ei alluogi i deimlo'n gyfforddus yn ei amgylchedd newydd
- Bydd gweithiwr allweddol y plentyn yn mynd gyda'r plentyn ar yr ymweliadau cychwynnol hyn i alluogi person cyfarwydd i fod yn bresennol bob amser
- Lle bynnag y bo modd, symudir grwpiau o ffrindiau at ei gilydd i alluogi cadw'r cyfeillgarwch hwn yn gyflawn a chefnogi'r plant gyda'r cyfoedion y maent yn eu hadnabod
  Bydd rhieni yn cael gwybod am bob ymweliad a chanlyniadau'r sesiynau hyn e.e. trwy ffotograffau, trafodaethau neu gofnodion dyddiadur
- Dim ond pan fydd y plentyn wedi setlo drwy'r sesiynau blasu hyn y bydd y symudiad ystafell barhaol yn digwydd. Os oes angen mwy o gefnogaeth ar blentyn, bydd hyn yn cael ei drafod rhwng

y gweithiwr allweddol, rhiant, rheolwr ac arweinydd ystafell yr ystafell newydd i gytuno ar sut a phryd y bydd hyn yn digwydd. Gall hyn gynnwys symud eu gweithiwr allweddol gyda nhw dros dro.

**Dechrau mynd i'r ysgol neu symud gofal plant**
Mae dechrau ysgol yn newid pwysig a gall rhai plant deimlo'n bryderus neu'n ofidus. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i hwyluso symudiad llyfn a lleihau unrhyw straen posibl. Mae gennym amrywiaeth o ddulliau sy'n cefnogi hyn:

- Byddwn yn darparu amrywiaeth o adnoddau sy'n berthnasol i'r ysgol, e.e. gwisgo i fyny, creu ardal chwarae rôl , fel ystafell ddosbarth ysgol, ffotograffau o'r holl ysgolion y gall y plant eu mynychu. Bydd hyn yn helpu'r plant i ymgyfarwyddo â'r cysyniad newydd hwn a bydd yn helpu'r pontio
- Byddwn yn gwahodd cynrychiolwyr ysgol i'r feithrinfa i'w cyflwyno i'r plant
- Lle y bo'n bosibl, rydym yn defnyddio ffyrdd eraill i gefnogi'r trosglwyddiad i'r ysgol, e.e. gwahodd plant blaenorol o'r feithrinfa sydd wedi symud i'r ysgol i ddod yn ôl i siarad â'r plant am eu profiadau ysgol
- Lle bo'n bosibl rydym yn cynllunio ymweliadau â'r ysgol gyda'r gweithiwr allweddol. Bydd pob gweithiwr allweddol yn siarad am yr ysgol gyda'u plant allweddol sydd ar fin symud i'r ysgol ac yn trafod yr hyn y credant a allai fod yn wahanol a beth allai fod yr un fath. Byddant yn trafod unrhyw bryderon sydd gan y plentyn ac yn cychwyn gweithgareddau neu drafodaethau grŵp yn ymwneud ag unrhyw faterion i helpu plant i oresgyn y rhain
• Rydym yn cynhyrchu adroddiad cynhwysfawr ar bob plentyn sy'n dechrau yn yr ysgol i alluogi athrawon i gael dealltwriaeth dda o bob plentyn a dderbynnir. Bydd hyn yn cynnwys eu diddordebau, eu cryfderau a lefel eu dealltwriaeth a'u datblygiad mewn meysydd allweddol. Bydd hyn yn cefnogi parhad gofal a dysgu cynnar.

**Darparwyr blynyddoedd cynnar eraill**
Lle mae plant yn mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill neu'n derbyn gofal gan warchodwr plant, byddwn yn gweithio gyda nhw i rannu gwybodaeth berthnasol am ddatblygiad plant. Pan fydd gwarchodwr plant yn dod â phlentyn i'r feithrinfa neu'n ei gasglu o'r feithrinfa, byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei darparu i riant y plentyn trwy ddarparu'r wybodaeth yn uniongyrchol i'r rhiant trwy e-bost neu dros y ffôn.

Perthynas yn torri i lawr yn y teulu Rydym yn cydnabod y gall rhieni sy'n gwahanu fod yn sefyllfa anodd i bawb dan sylw. Mae gennym bolisi teuluoedd ar wahân sy'n dangos sut y bydd y feithrinfa'n gweithredu er lles y plentyn.

**Symud cartref a brodyr a chwiorydd newydd**
Rydym yn cydnabod y gall y ddau ddigwyddiad hyn gael effaith ar blentyn. Fel arfer, bydd gan rieni rybudd ymlaen llaw am y newidiadau hyn a gofynnwn i rieni roi gwybod i ni am y digwyddiadau hyn fel y gallwn gefnogi'r plentyn baratoi. Bydd y gweithiwr allweddol yn treulio amser yn siarad â'r plentyn ac yn darparu gweithgareddau a allai helpu'r plentyn i weithredu unrhyw bryderon sydd ganddo, e.e. trwy chwarae rôl,

straeon a thrafodaethau.

**Profedigaeth**
Rydym yn cydnabod y gall hyn fod yn gyfnod anodd iawn i blant a'u teuluoedd ac mae gennym bolisi ar wahân ar brofedigaeth a ddilynwn er mwyn ein helpu i gynnig cefnogaeth i bawb dan sylw petai angen hyn. Os yw rhieni'n teimlo bod angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn oherwydd unrhyw newidiadau yn eu bywyd, gofynnwn i chi siarad â rheolwr y feithrinfa a'r gweithiwr allweddol i alluogi i'r gefnogaeth hon gael ei rhoi ar waith.

| Mabwysiadwyd y polisi hwn ar | Llofnodwyd ar ran y feithrinfa | Dyddiad adolygiad nesaf |
|---|---|---|
| *1/4/2026* | *N. Baker* | *Ebrill 2027* |